



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM

Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018,
Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam

Lyndsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nina Ruddle	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
Mark Williams	Heddlu Gogledd Cymru
Llinos Roberts	Coleg Cambria (ar ran Sue Price)
John Gallanders	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Lynne Moore	Adran Gwaith a Phensiynau
Judith McGaw	Y Gwasanaeth Prawf
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Claire Mooney	Y Gwasanaeth Prawf (ar ran Andy Jones)
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cefnogi Michael Cantwell Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Siaradwyr

Ken Perry	Do Well (eitem 1 ar yr agenda)
Y Cyng. Andrew Atkinson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (eitem 6 ar y rhaglen)
Jade Parry	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (eitem 6 ar y rhaglen)

Ymddiheuriadau

Sue Price	Coleg Cambria
Gary Doherty	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Teresa Owen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Angela Tinkler	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Y Cyng. Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf

	<p>Croesawodd LR bawb i'r cyfarfod.</p> <p>Cytunwyd i gofnodi gair o ddiolch i Helen Odunaiya am ei gwaith caled yn cefnogi'r Bwrdd dros y ddwy flynedd diwethaf, a'i gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf y BGC.</p> <p>Cynhyrchwyd fideo byr i helpu i wneud y cynllun lles yn fwy hygyrch. Mae wedi cael ei bostio ar wefan BGC a gofynnir i Aelodau'r BGC rannu'r ddolen o amgylch eu sefydliadau.</p> <p>Fideo llawn (Saesneg) - https://youtu.be/DHbeUTiFwHE</p> <p>Fideo llawn (Cymraeg) - https://youtu.be/WcjCV5InUww</p>	<p>MC</p> <p>Pawb</p>
	Strategol	
1	Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac Arwain Systemau	
	<p>Cyflwynodd NR a Ken Perry raglen MA/BA Arweinyddiaeth Gwasanaeth Cyhoeddus sydd wedi cael ei llunio gan Brifysgol Glyndŵr, gan weithio gyda <i>Do Well</i>. Cafodd ei arwain gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, cydweithwyr a budd-ddeiliaid ar draws ein rhanbarth o fewn fframwaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y rhaglen yn creu arweinwyr ar gyfer y presennol a'r dyfodol er mwyn arwain ar draws ffiniau sector, ar draws systemau ac mewn cyfnodau o gymhlethdodau ac ansicrwydd.</p> <p>Yn y cyfarfod, trafodwyd sut i ddatblygu ein cysylltiadau fel arweinwyr a sefydliadau, i sicrhau nad pasio gwybodaeth ymlaen yn unig rydym ni'n ei wneud, ond ein bod yn canolbwyntio ar leihau proses tra'n ychwanegu gwaith i wella lles.</p> <p>Cafodd modiwl Arwain Systemau ei dreialu'n ddiweddar gydag aelodau o is-grŵp gwytnwch Sir y Fflint, gan roi sail gadarn wrth wahaniaethu rhwng arwain a rheoli, yn ogystal â chanolbwyntio ar sut i ddefnyddio'r dull naratif cyhoeddus. Mae'r cynllun peilot wedi cael ei ariannu trwy gronfa partneriaeth BGC rhanbarthol, ac fe allai fod yna gyfleoedd i ddefnyddio'r arian yma eto yn y dyfodol.</p> <p>Roedd MC wedi mynychu o Wrecsam ac roedd yn meddwl bod yr hyfforddiant yn 'ysgogol ac yn ddull effeithiol o greu rhwydwaith cryf o arloeswyr'.</p> <p>Mae manylion am y cyrsiau Arwain Systemau newydd i'w gweld trwy glicio ar y dolenni canlynol: TROSOLWG O'R CWRS BA MA</p>	
	<p>Bydd NR yn e-bostio aelodau'r BGC i'w hatgoffa i rannu'r manylion yma gyda'u cydweithwyr datblygu gweithlu, a'u gwahodd i drafod unrhyw gyfleoedd hyfforddiant sefydliadol penodol gyda hi.</p>	NR
2	Diweddariad gan Fyrddau Rhaglen	
	<p>Dysgu Gydol Oes</p> <p>Cafwyd diweddariad gan Llinos Roberts. Mae'r cynllun gweithredu'n mynd rhagddo'n</p>	

	dda. Trafodwyd Adduned y Cyflogwr, Rhaglen Cyfnewid Busnes a Chymraeg yn y Gweithle.	
2.1	Adduned Cyflogwr. Mae partneriaid y BGC wedi ymrwymo eu sefydliadau i arwyddo'r adduned mewn cyfarfod blaenorol, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Beci Morgan yn CBSW. Rebecca.Morgan@wrexham.gov.uk	
	Rhannu manylion gyda'r sefydliadau hynny nad ydynt wedi gallu symud ymlaen â'r adduned eto.	MC
2.2	Rhaglen Cyfnewid Busnes. Mae mwyafrif o'r sefydliadau sydd yn rhan o'r BGC bellach wedi cofrestru fel y cytunwyd yn flaenorol.	
	Os bydd unrhyw bartner angen gwybodaeth ychwanegol, cysylltwch ag Amie Field yng Ngyrfa Cymru. amiefield@careerswales.com	Pawb
2.3	Cymraeg yn y Gweithle. Mae ymarfer mapio wedi nodi pa weithgaredd sydd wedi cael ei gynnal ar draws sefydliadau BGC i wella sgiliau iaith eu gweithlu.	
	Mae rhagor o wybodaeth am Gymraeg yn y Gweithle ar gael gan Llinos Roberts yng Ngholeg Cambria. llinos.roberts@cambria.ac.uk	ALL
2.4	Dechrau Iach Cafwyd diweddariad gan MC. Mae'r cynllun gweithredu ar y trywydd iawn. Trafodwyd ymgynghoriad lles diweddar y mae'r Senedd yn ei arwain. Mae'r ymgynghoriad wedi cael ei gefnogi'n dda a hyd yn hyn mae 1200 o bobl ifanc wedi cymryd rhan, gan roi eu barn ar destunau sy'n amrywio o sgiliau bywyd, i addysg, i fwlio.	
	Gwahodd y Senedd i gyflwyno eu casgliadau yng nghyfarfod nesaf y BGC.	MC
2.5	Iechyd Da Cafwyd diweddariad gan RS – mae'r bwrdd rhaglen yn gwneud cynnydd da. Trafodwyd tri phrosiect sy'n rhan o'r model trawsnewidiol o ofal cyfannol sy'n cael eu datblygu yn BIPBC: <ul style="list-style-type: none"> • Cais BPRh am Gyllid Trawsnewidiol • Rhagor o Gydweithio/Integreiddio Iechyd/Gwasanaethau Cymdeithasol • Rhyddhau i Asesu (D2A) Dywedodd IB y bydd CBSW yn edrych sut i leoli timau amlddisgyblaethol orau yn yr ysbyty. Roedd JG yn teimlo ei bod yn bwysig i ail bwysleisio rôl a gwerth y trydydd sector, yn enwedig o ran y broses ryddhau.	

	Cytunwyd y byddai'n syniad defnyddio bod meddyg teulu yn mynychu cyfarfod y BGC yn y dyfodol i siarad am effaith y newidiadau hyn.	RS /MC
3	Dull rhanbarthol i newid hinsawdd	
	<p>Lluniwyd cynnig gan grŵp swyddogion BGC bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn arwain fframwaith newid hinsawdd ranbarthol ar gyfer gogledd Cymru. Byddai hyn yn mapio pob dim y mae sefydliadau, partneriaid a chymunedau yn ei wneud ar hyn o bryd, o gludiant i dai, ynni i isadeiledd, asesu lle mae'r bylchau, cytuno ar negeseuon cyson i newid ymddygiad, rhannu syniadau da a'n galluogi ni i gydweithio i greu cymunedau gwydn sydd wedi'u paratoi ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Mae LR wedi bod yn siarad gyda chadeiryddion BGC Gogledd Cymru i gytuno ar safbwynt cyffredin y gellir ei gymryd i'r grŵp arweinwyr rhanbarthol o brif weithredwyr i gael eu cymeradwyaeth. Mae BGC Gwent yn gweithio ar ddull tebyg ar hyn o bryd, gyda CNC yn rheoli'r prosiect.</p> <p>Dywedodd RS fod yna arweinydd newid hinsawdd yn BIPBC a fydd yn cymryd rhan pan fydd yr amser yn briodol.</p> <p>Bydd JG yn dosbarthu manylion cynhadledd Adfywio Cymru ar ynni adnewyddadwy a fydd yn cael ei gynnal ym Mhlas Madog ar ddiwedd Chwefror 2019.</p>	JG
	Bydd papur ymgynghori byr yn cael ei ddisbarthu yn amlinellu'r broses arfaethedig, a chyfleoedd i bartneriaid i gymryd rhan.	LR /MC
4	Sut ydym ni'n alinio gwaith amgylcheddol yn Wrecsam gyda chynllun llesiant y BGC?	
	<p>Rhoddodd LR ddiweddariad am nifer o brosiectau amgylcheddol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwrw ymlaen â nhw mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill a fydd yn helpu i wella llesiant lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mannau Gwyrdd Trefol – edrych ar y potensial i gynyddu nifer y coed ar draws y Fwrdeistref Sirol, gweithio gydag ysgolion coedwig i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fioamrywiaeth ymysg phobl ifanc. • Brymbo – adnabod gofynion a chyfleoedd seilwaith gwyrdd i gyd-fynd â'r gwaith adfywio parhaus • Ffynhonnau dŵr - mae gennym gyfle i osod nifer o ffynhonnau dŵr mewn lleoliadau amlwg. <p>Bydd hyn yn cynyddu faint o ddŵr fydd yn cael ei ddefnyddio ac yn lleihau'r defnydd o blastig untro, a'r bwriad yw cynhyrchu nifer cyfyngedig o boteli dŵr y gellir eu hailddefnyddio ar y cyd â Thŷ Pawb. Mae'r lleoliadau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys Tŷ Pawb, Ysbyty Maelor a Gorsaf Fysiau Wrecsam, ac os bydd y cam cyntaf yn llwyddiannus, yna gallai'r BGC ganiatáu mwy - maent yn eithaf cost effeithiol ac fe allent gael eu noddi gan fusnesau da chymunedau.</p>	
	Gwahoddir Aelodau BGC i anfon awgrymiadau o le y gellir gosod y ffynhonnau dŵr.	Pawb
	Gweithredol	

5	Pwyntiau Gweithredu	
	Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.	
6	Strategaeth Trechu Tlodi CBSW	
	<p>Cyflwynodd y Cynghorydd Andrew Atkinson, Aelod Arweiniol y Strategaeth Trechu Tlodi roedd CBSW newydd ei fabwysiadu. Mae'n canolbwyntio ar y sir, ac yn dwyn ynghyd ystod o weithgareddau sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi'u cynllunio i roi ffocws clir – cafodd ei lunio er mwyn i CBSW 'roi trefn ar bethau' ac yna gweithio gyda phartneriaid o sefyllfa fwy cadarn. Mae'n ymwneud â chodi dyheadau ac adeiladu gwynwch.</p> <p>Cynigiodd AA bod partneriaid BGC yn cydweithio i gynhyrchu fideo sydd yn dangos beth sy'n cael ei gyflawni ar draws Wrecsam i drechu tlodi, a siarad yn uniongyrchol gyda phobl sydd wedi elwa o gyfleoedd megis addysg neu dai.</p> <p>Dywedodd LM y byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau yn awyddus i weithio ar fideo ac y byddai yna lawer o astudiaethau achos.</p> <p>Dywedodd AA fod gwaith partneriaeth eisoes yn digwydd mewn perthynas â thlodi misglwyf a thlodi bwyd.</p> <p>Roedd IB yn teimlo y byddai creu tystiolaeth ac astudiaethau achos yn rhoi sylfaen gadarn i'r BGC i ddatblygu dull partneriaeth clir i fynd i'r afael â materion cyffredinol cynllun lles y BGC.</p> <p>Awgrymodd NR bod yr astudiaethau achos yn cyd-fynd ag amcanion lles y BGC.</p> <p>Dywedodd JG fod ymchwil JRF yn dangos y lefelau uchel o weithwyr sector cyhoeddus oedd yn rhan o fywydau teuluoedd oedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, ac mae angen sgôp i leihau dyblygiad ac alinio rhaglenni yn well.</p>	
	Dylai aelodau'r BGC a hoffai i'w sefydliad fod yn rhan o'r fideo i anfon e-bost at MC.	Pawb
7	Cynllun Gwaith i'r Dyfodol	
	Y Tîm Amlasiantaeth Bydd y Tîm Amlasiantaeth yn cwrdd ar ôl pob cyfarfod BGC, i ddatblygu syniadau i wella sut rydym ni'n gweithio, adeiladu capasiti a rhannu ymwybyddiaeth o ffrydiau ariannu, arferion gorau a chysylltiadau.	
	Bydd y BGC angen llunio Adroddiad Blynyddol am flwyddyn gyntaf y cynllun lles, a bydd rhaid iddynt gytuno ar yr amcanion sydd yn weddill a fydd yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer 2019/2020. Bydd y Tîm Amlasiantaeth yn datblygu opsiynau cyn cyfarfod nesaf y BGC er mwyn i'r partneriaid eu hystyried.	LR/IB/ SP/AT /RS/ MC
	Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - 14 Mawrth 2019 Bydd Sally Holland, y Comisiynydd Plant yn mynychu cyfarfod y BGC ym mis Mawrth 2019. Bydd hwn yn gyfle i sefydliadau adlewyrchu ar yr hyn maent yn ei wneud i alinio eu cynlluniau cyflenwi gyda'r cynllun lles a sut maent yn gwella canlyniadau o safbwynt	

	plant a phobl ifanc. Yna gallwn ddefnyddio'r drafodaeth hon ar gyfer adroddiad blynyddol cyntaf y BGC. Awgrymodd IB bod effaith strategaeth Gwerthoedd a Rennir ar gyfer Chwarae a drafodwyd yn y BGC yn 2018 yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.	
	Bydd cyfarfod y BGC ym mis Mawrth yn cael ei rannu mewn i ddau, er mwyn i aelodau o'r Senedd redeg y sesiwn gyntaf, ac yna cyfarfod busnes byrrach.	Tîm Aml-ddisgyblaeth
8	Unrhyw Fater Arall	
	Mae nifer o sefydliadau'r BGC yn gweithio gyda chwmni data a TG Cymraeg o'r enw Datris i fapio lefelau o ymgysylltu â'r gymuned ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda'r nod o barhau i adeiladu DEWIS (cyfeiriadur cymunedol ar-lein). Bydd cyflwyniad llawn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r BGC yn y dyfodol.	NR/JG /MC
	Dosbarthodd MC fanylion cwrs hyfforddi arweinyddiaeth y Bwrdd Academi i Aelodau'r Bwrdd a fydd yn cael ei gynnal yn Llandudno ar 15 Mawrth 2019. Mae'n gwrs rhanbarthol, felly mae'n gyfle da i gwrdd ag aelodau Bwrdd cyfatebol o bob rhan o Ogledd Cymru.	MC
9	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
	10am, 14 Mawrth 2019 Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam.	

Dyddiadau Cyfarfodydd 2019:

14.03.19	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam
13.06.19	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam
12.09.19	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam
12.12.19	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam

E-bostiwch sustainability@wrexham.gov.uk o hoffech chi ragor o wybodaeth am y cofnodion yma a'r camau gweithredu.

Cyfarfod BGC Wrecsam 2018 – camau gweithredu

	Gofynnwyd i Aelodau'r BGC rannu'r ddolen i'r fideo lles o amgylch eu sefydliadau.	Pawb
1	E-bostio aelodau'r BGC i'w hatgoffa i rannu'r manylion yma gyda'u cydweithwyr datblygu gweithlu, a'u gwahodd i drafod unrhyw gyfleoedd hyfforddiant sefydliadol penodol gyda hi.	NR
2.1	Rhannu manylion gyda'r sefydliadau hynny nad ydynt wedi gallu mabwysiadu'r Adduned Cyflogwr eto.	MC
2.2	Cysylltu ag Amie Field yng Ngyrfa Cymru i gael rhagor o fanylion am y Rhaglen Cyfnewid Busnes.	Pawb
2.3	Cysylltwch â Llinos Roberts yng Ngholeg Cambria i gael rhagor o wybodaeth am Gymraeg yn y Gweithle.	Pawb
2.4	Siaradwch gyda Caroline Bennet i drafod y fformat i aelodau o'r Senedd gyflwyno casgliadau eu hymgyngoriad yng nghyfarfod y BGC ym mis Mawrth.	MC
2.5	Gwahodd meddyg teulu i fynychu cyfarfod o'r BGC yn y dyfodol	RS/MC
3	Dosbarthu manylion cynhadledd Adfywio Cymru ar ynni adnewyddadwy	JG
3	Dosbarthu papur ymgynghori ar newid hinsawdd	LR/MC
4	Anfon awgrymiadau o le y gellir gosod y ffynhonnau dŵr.	Pawb
6	Cysylltu ag MC i gael manylion am fideo arfaethedig Trechu Tlodi	Pawb
7	Cynhyrchu dewisiadau a syniadau i wella proses y BGC. Cynllunio cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mis Mawrth 2019	Tîm Amlddisgyblaeth
8	Gwahodd Datris i fynychu cyfarfod o'r BGC yn y dyfodol Dosbarthu manylion cwrs hyfforddi Academi Wales	MC MC